**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Adolygiad Polisi: Yr Iaith Gymraeg mewn Addysg**

# Ymweliadau ag Ysgolion ym Môn a Gwynedd, Chwefror 20fed - Chwefror 22ain 2002

## Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn trafod prif nodweddion ymweliadau â phedair ysgol uwchradd yn Ynys Môn a Gwynedd rhwng Chwefror 20fed a Chwefror 22ain 2002. Ymwelwyd â'r ysgolion, a gwnaethpwyd y trefniadau ar gyfer hynny, gan Catrin Redknap, wedi derbyn sêl bendith Clerc y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Diben yr ymweliadau

Diben yr ymweliadau oedd ymhelaethu ar y dull o gasglu tystiolaeth a ddefnyddiwyd yn Nghyfarfod y Pwyllgor ADGO ym Machynlleth ddiwedd Ionawr, yng nghyd-destun Adolygiad Polisi'r Iaith Gymraeg mewn Addysg. Cynhwysai'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn y cyfarfod hwnnw safbwyntiau disgyblion uwchradd a'u hagweddau tuag at eu profiad o'r Gymraeg mewn addysg. Cysylltwyd â phedair ysgol ym Môn a Gwynedd, gyda'r bwriad o ymestyn yr agwedd hon ar yr Adolygiad Polisi, yn ddaearyddol a hefyd o ran natur y ddarpariaeth ieithyddol sydd ar gael i ddisgyblion.

## Bwriad y papur hwn

Bwriedir i'r papur hwn gofnodi prif ganfyddiadau'r cyfarfodydd hyn gyda disgyblion. Ni chyfeirir yn benodol at ysgolion unigol; y nod, yn hytrach, yw cynnig crynodeb o brif nodweddion y dystiolaeth a gasglwyd.

## Trefniadau cychwynnol

Cysylltwyd â Chyfarwyddwyr Addysg Môn a Gwynedd, a gofynnwyd am eu caniatâd i ymweld â'r ysgolion. Cafwyd cefnogaeth barod a llwyr ganddynt. Cysylltwyd â Phenaethiaid pedair ysgol (neu eu cynrychiolwyr), a gwnaethpwyd trefniadau ar gyfer yr ymweliadau. Ymwelwyd â'r ysgolion canlynol:

Ysgol Uwchradd Caergybi, Ynys Môn

Ysgol Uwchradd Bodedern, Ynys Môn

Ysgol Friars, Bangor, Gwynedd

Ysgol Tryfan, Bangor, Gwynedd

**Gwybodaeth a roddwyd i'r ysgolion**

Esboniwyd wrth y Penaethiaid mai diben y cyfarfodydd gyda'r disgyblion oedd trafod eu safbwyntiau a'u hagweddau mewn perthynas â'u profiad o'r Gymraeg yn yr ysgol. Golygai hyn hefyd drafod rhai agweddau ar ymddygiad ieithyddol y disgyblion y tu allan i'r ysgol. Esboniwyd wrthynt nad gwerthuso dulliau dysgu penodol oedd y nod; sicrhawyd disgyblion nad gwerthuso hyfedredd ieithyddol unigolion oedd y bwriad, ac fe'u hatgoffwyd nad oeddynt i gynnig sylwadau am athrawon unigol.

**Cyfarfodydd gyda'r disgyblion**

Dewiswyd y disgyblion gan y staff ymlaen llaw. Cafwyd y cyfarfodydd i gyd yn ystod oriau ysgol, gyda phob un yn para rhwng ugain a deugain munud. Cafwyd cyfanswm o saith grwp, gyda rhwng 3 a 10 o ddisgyblion ym mhob un, yn cynrychioli blynyddoedd 7 i 11. Ym mhob achos ymatebodd y disgyblion yn agored, gan ddangos awydd i gydweithredu a chynnig sylwadau adeiladol.

I raddau helaeth datblygodd y sesiynau yn ôl nodweddion y grwpiau unigol, a dylanwadodd ystyriaethau megis oedran a gallu'r disgyblion ar faint o arweiniad a chwestiynu oedd ei angen i lywio'r sgwrs. Cynhaliwyd y sesiynau yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn ôl amgylchiadau'r disgyblion.

## Y ddarpariaeth Gymraeg ar gael i'r disgyblion

Cynrychiolai'r ysgolion wahaniaethau sylweddol o ran darpariaeth ieithyddol, ac yn yr un modd cynrychiolai'r disgyblion rychwant helaeth o ran eu cyswllt â'r Gymraeg, yn amrywio o'r rhai a ddysgai'r Gymraeg fel pwnc yn unig (Cymraeg ail iaith) i'r rhai oedd yn astudio mwyafrif eu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Rhwng y ddau begwn cafwyd nifer o amrywiadau.

## Prif feysydd a drafodwyd yn y sesiynau

Amrywiai'r sesiynau rhyw ychydig yn ôl nodweddion ac ymatebion disgyblion unigol. Fodd bynnag, defnyddiwyd y canlynol fel canllaw ar gyfer y trafod:

1. Esboniad byr o gefndir addysgol (blwyddyn; ysgol gynradd a fynychwyd)

2. Cefndir ieithyddol (patrymau defnydd ieithyddol gartref ac mewn rhwydweithiau cymdeithasol)

3. Cyswllt â'r Gymraeg yn yr ysgol (Cymraeg fel pwnc - iaith gyntaf ac ail iaith; Cymraeg fel cyfrwng; gweithgareddau all-gyrsiol)

4. Ymwybyddiaeth ieithyddol/ hunan-werthuso hyfedredd yn y Gymraeg

5. Agweddau tuag at eu profiadau o'r Gymraeg yn yr ysgol (gwerthuso gwahanol agweddau ar eu dysgu - cadarnhaol a negyddol; unrhyw ffactorau sydd wedi peri iddynt newid eu hagweddau?)

6. Edrych tua'r dyfodol: defnyddioldeb a phwysigrwydd y Gymraeg iddynt yn eu gyrfaoedd a'u bywydau wedi iddynt adael yr ysgol

## SYLWADAU

### 1. Barn y disgyblion eu hunain ynghylch eu hyfedredd yn y Gymraeg

Cafwyd ymhlith y disgyblion i gyd, ac yn arbennig felly y rhai hynaf, **ymwybyddiaeth** gref o'u hyfedredd yn y Gymraeg. Ymddengys fod cyd-berthynas agos rhwng y canfyddiadau hyn a'r **defnydd** a wneir o'r iaith gan y disgyblion.

(i) *Mesur cynnydd yn y Gymraeg ers Blwyddyn 6*

Gofynnwyd i'r disgyblion os oedd eu Cymraeg wedi gwella ers Blwyddyn 6. Dywedodd pob un o ddisgyblion Blwyddyn 7, 8 a 9 eu bod bellach yn teimlo'n fwy hyderus yn yr iaith.

Pan ofynnwyd yr un cwestiwn i'r disgyblion yn y blynyddoedd uwch, cafwyd amryw o atebion:

- Teimlai rhai disgyblion fod eu gallu yn y Gymraeg wedi gwella, a'u bod yn cael mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith hefyd.

- Credai disgyblion eraill fod safon eu Cymraeg wedi gwella (yn arbennig eu Cymraeg ysgrifenedig), er nad oeddynt yn defnyddio'r Gymraeg cymaint ag ym Mlwyddyn 6. Wrth esbonio pam, dywedodd sawl un fod eu cyfoedion oedd yn siarad Saesneg yn dylanwadu mwy arnynt.

- Teimlai eraill fod eu Cymraeg wedi dirywio ers Blwyddyn 6. Y ddau brif reswm a roddwyd oedd dylanwad cyfoedion oedd yn siarad Saesneg, a phrinder cyfle i ymarfer eu Cymraeg yn y dosbarth.

(ii) *Ansicrwydd ieithyddol*

Un nodwedd arwyddocaol o ymwybyddiaeth disgyblion o'u hyfedredd yn y Gymraeg oedd y duedd ymhlith rhai i gymharu eu hunain yn anffafriol gydag eraill oedd, yn eu tyb hwy, yn siarad yn 'dda' neu yn 'rhugl'. Cyfeiriai ambell un o'r sylwadau hyn at y teimlad nad oedd Cymraeg eu teulu/ eu cymuned hwy yn ddigon graenus. Gwnaethpwyd cymariaethau hefyd rhwng eu hymdrechion hwy i siarad Cymraeg a'r math o Gymraeg a siaredir gan eu neiniau a'u teidiau, a oedd, ym marn y disgyblion, yn siarad yn 'well'. Cafwyd peth awgrym ei bod yn anodd i ddisgyblion oedd yn awyddus i ymarfer a gwella eu Cymraeg ymdoddi i grwpiau o siaradwyr mwy hyderus, er mai diffyg hyder yn hytrach nag unrhyw fath arall o amharodrwydd oedd i gyfrif am hyn.

Fel y gellid disgwyl, ymddengys fod cyd-berthynas agos rhwng hyder o ran hyfedredd, ar y naill law, a chysondeb yn y defnydd o'r Gymraeg ar y llaw arall. Sylwyd hefyd, fodd bynnag, fod y mwyafrif helaeth o blith y rhai oedd fwyaf ymwybodol o'u diffyg gallu yn y Gymraeg yn awyddus i wella eu sgiliau yn yr iaith.

## 2. Y Gymraeg fel pwnc

Croesawodd nifer o ddisgyblion y ffaith fod dysgu'r Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3 wedi eu galluogi i wella safon eu Cymraeg. Tra cyfeiriai rhai at agweddau mwy ffurfiol yr iaith ysgrifenedig, roedd mwyafrif y disgyblion hyn yn fwyaf brwdfrydig ynghylch defnyddio'r iaith yn greadigol (e.e. gwaith thema, ysgrifennu sgriptiau, chwarae rôl). Ymhlith y rhai oedd yn llai hapus ynghylch eu cynnydd ers Blwyddyn 6, dywedodd rhai y byddent yn croesawu mwy o gyfleoedd i wella eu gallu yn yr iaith lafar.

## 3. Y Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer pynciau eraill

Ni chafwyd unrhyw gyfeiriad at anawsterau ieithyddol ynghlwm ag astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg, ar wahân i'r angen i ymgyfarwyddo â rhai termau oedd yn ddieithr ar yr olwg gyntaf. Un mater y cyfeiriwyd ato, fodd bynnag, oedd y diffyg cydbwysedd o ran yr adnoddau oedd ar gael yn y ddwy iaith (rhoddwyd gwefanau a deunyddiau adolygu fel enghreifftiau).

## 4. Defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol - y teulu a rhwydweithiau cymdeithasol

Cafwyd cryn wahaniaethu, gydag ymddygiad ieithyddol disgyblion yn amrywio o ddefnydd cyson o'r Gymraeg gyda'r teulu a'r rhan fwyaf o gyfeillion, i ddim Cymraeg, neu ychydig iawn, y tu allan i'r ysgol. Cafwyd sawl tuedd gyffredinol:

- Ymhlith y disgyblion hynny a siaradai Gymraeg yn gyson gyda'u rhieni, dywedodd nifer sylweddol nad oeddynt mor gyson wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u cyfeillion.

- Dywedodd nifer fechan iawn eu bod yn siarad Saesneg gyda'u brodyr a'u chwiorydd, er eu bod yn siarad Cymraeg gyda'u rhieni.

- Dywedodd rhai disgyblion nad oedd y gweithgareddau cymdeithasol sy'n mynd â'u bryd yn cynnig llawer o gyfle iddynt ddefnyddio eu Cymraeg. Cafwyd hefyd awgrym gan un neu ddau fod peth 'stigma' yn perthyn i'r Gymraeg mewn rhai cylchoedd - nid oedd siarad yr iaith yn cael ei ystyried yn 'cool'.

- Soniodd eraill, fodd bynnag, am y cyfleoedd gwerthfawr oedd ar gael yn yr ysgol i ymestyn eu defnydd o'r Gymraeg i weithgareddau all-gyrsiol.

• Roedd yn amlwg fod y Gymraeg yn rhan greiddiol o brofiadau cymdeithasol a diwylliannol disgyblion eraill, a soniwyd am y gweithgareddau a'r achlysuron y tu allan i'r ysgol lle **nad** ydynt yn defnyddio'r Gymraeg fel eithriadau.

**5. Gwerth a defnyddioldeb y Gymraeg yn y dyfodol**

Wrth ystyried pa mor ddefnyddiol roedd y Gymraeg yn debygol o fod iddynt wedi iddynt adael yr ysgol, cynigiodd y disgyblion sawl math o ymateb:

• Dywedodd rhai eu bod yn ymwybodol o'r manteision o ran gyrfa a allai ddod yn sgîl sgiliau dwyieithog da.

• Yn ôl eraill, hyd yn oed os na fyddai eu gyrfa yn gofyn yn uniongyrchol am allu yn y Gymraeg, roedd pwysigrwydd y Gymraeg fel rhan annatod o'u hunaniaeth yn golygu y byddent yn parhau i ddefnyddio'r iaith.

• Dywedodd rhai disgyblion y byddai'r Gymraeg yn ddefnyddiol ar gyfer rhai mathau o waith (e. e. nyrsio) pe byddent yn dewis aros yn lleol.

• Roedd eraill, fodd bynnag, yn amau a fyddent mewn gwirionedd yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith. Credai rhai o blith y garfan hon y byddent yn parhau i ddefnyddio'r iaith gyda'r teulu yn unig, tra teimlai eraill mai prin iawn fyddai eu cyswllt â'r Gymraeg wedi iddynt adael yr ysgol.

**Sylwadau wrth gloi**

Cafwyd yn y pedair ysgol gryn amrywiaeth o ran y ddarpariaeth ieithyddol sydd ar gael i'r disgyblion. Gan hynny, mae cyfyngiadau amlwg i'r casgliadau cyffredinol y gellir eu gwneud ar ddiwedd astudiaeth oddrychol fel hon. Yn ogystal, adlewyrchai nifer o'r safbwyntiau a gyflwynwyd gan y disgyblion nid yn unig natur y ddarpariaeth ieithyddol yn yr ysgol ond hefyd amrywiaeth o ffactorau cymdeithasol-ddiwylliannol ac amgylchiadau personol.

Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, fodd bynnag, cyflwynwyd nifer o faterion pwysig:

• Amrywiaeth o ran lefelau cyrhaeddiad a disgwyliadau yn y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2, a hyn yn ei dro yn dylanwadu ar y trosglwyddo i CA3 (sialens o sicrhau fod y cynnydd ar hyd y continiwm ieithyddol yn briodol i bawb)

- Sialens o gynnal cynnydd ar hyd y continiwm wrth i ddisgyblion symud i CA4

- Dylanwad ethos ieithyddol gyffredinol ysgol ar ymddygiad ac agweddau ieithyddol

- Pwysigrwydd dylanwad cyd-ddisgyblion ar ymddygiad ieithyddol unigolion

- Arwyddocâd barn siaradwyr ynghylch eu hyfedredd o ran eu parodrwydd i ddefnyddio'r iaith

- Dylanwad rhwydweithiau cymdeithasol anffurfiol (yn cynnwys y teulu a'r gymdogaeth) ar hyfedredd a defnydd ieithyddol disgyblion:

(i) sut mae'r ymddygiad hwn yn lliwio agweddau tuag at yr iaith yn yr ysgol

(ii) pwysigrwydd **cymharol** cysylltiad disgyblion gyda'r Gymraeg yn yr ysgol a thu allan i furiau'r ysgol, o ran ystyriaethau ehangach yn ymwneud â gallu'r Gymraeg i oroesi

**Diolchiadau**

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth barod Cyfarwyddwyr Addysg Ynys Môn a Gwynedd. Yn yr un modd cydnabyddir gydweithrediad staff y pedair ysgol a'u parodrwydd i drefnu'r cyfarfodydd; diolch hefyd i'r disgyblion am fod mor barod i rannu eu safbwyntiau a'u sylwadau.